



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 3054 (Cy.263)

2004 No. 3054 (W.263)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**GOSODIADAU AR Y MÔR,
CYMRU**

**OFFSHORE INSTALLATIONS,
WALES**

TRYDAN, CYMRU

ELECTRICITY, WALES

**Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr
Cefnenni Tywod Scarweather 2004**

**The Scarweather Sands Offshore
Wind Farm Order 2004**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer adeiladu a gweithredu fferm wynt ar y môr a gweithfeydd atodol ar wely Bae Abertawe oddi ar yr arfordir rhwng Porthcawl a Phort Talbot, ac ar gyfer cysylltu'r gweithfeydd hynny â'r system dosbarthu trydan drwy is-orsaf ar y tir.

This Order provides for the construction and operation of an offshore wind farm and ancillary works on the bed of Swansea Bay off the coast between Porthcawl and Port Talbot and for the connection of those works via an onshore substation to the electricity distribution system.

Gellir archwilio copi o blaniau'r gweithfeydd, trawsluniau o blaniau'r tir, a'r cyfeirlyfr, a ragnodwyd gan reol 12(1), (2), (3) a (5) o Reolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Cyflwyno Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2000, ac a ardystiwyd yn unol ag erthygl 34 o'r Gorchymyn hwn, yn swyddfeydd Scarweather Sands Ltd., Blwch Post 824, Alexandra Gate, Rover Way, Caerdydd, CF24 2SD.

A copy of the works plans, land plans, sections and of the book of reference prescribed by rule 12(1), (2), (3) and (5) of the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2000, and certified in accordance with article 34 of this Order, may be inspected at the offices of Scarweather Sands Ltd., PO Box 824, Alexandra Gate, Rover Way, Cardiff, CF24 2SD.

2004 Rhif 3054 (Cy.263)

2004 No. 3054 (W.263)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**GOSODIADAU AR Y MÔR,
CYMRU**

**OFFSHORE INSTALLATIONS,
WALES**

TRYDAN, CYMRU

ELECTRICITY, WALES

Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr
Cefnenni Tywod Scarweather 2004

The Scarweather Sands Offshore
Wind Farm Order 2004

Wedi'i wneud *16 Tachwedd 2004*
Yn dod i rym *19 Tachwedd 2004*

Made *16 November 2004*
Coming into force *19 November 2004*

TREFN YR ERTHYGLAU

ARRANGEMENT OF ARTICLES

RHAN I

PART I

RHAGARWEINIAD

PRELIMINARY

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli

1. Citation and commencement
2. Interpretation

RHAN II

PART II

GWEITHFEYDD

WORKS

Prif bwerau

Principal powers

3. Y pŵer i adeiladu a chynnal a chadw gweithfeydd
4. Y pŵer i wyro

3. Power to construct and maintain works
4. Power to deviate

Strydoedd

Streets

5. Y pŵer i wneud gwaith stryd
6. Cau strydoedd dros dro

5. Power to execute street works
6. Temporary stopping up of streets

Pwerau atodol

7. Y pŵer i arolygu ac archwilio tir

Diogelu mordwyo a thraffig awyr, a rheoli sŵn

8. Gweithfeydd llanw'r môr na ddylid eu gweithredu heb gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol

9. Darparu yn erbyn peryglon i fordwyo

10. Diddymu gweithfeydd sydd wedi'u gadael neu sydd wedi dadfeilio

11. Arolygu gweithfeydd llanw'r môr

12. Goleuadau parhaol, cymhorthion diogelwch wrth fordwyo a lliwiau

13. Goleuadau ar weithfeydd llanw'r môr yn ystod gwaith adeiladu

14. System rheoli diogelwch weithredol

15. Sŵn wrth adeiladu a gweithredu

16. Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gweithfeydd mewn diffyg

17. Tramgwyddau

RHAN III

CAFFAEL A MEDDU AR DIR

Pwerau caffael

18. Y pŵer i gaffael tir

19. Cymhwyso Rhan I o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965

20. Y pŵer i gaffael hawliau newydd

Meddu ar dir dros dro

21. Defnyddio tir dros dro ar gyfer adeiladu gweithfeydd

Iawndal

22. Diystyru buddiannau a gwelliannau penodol

23. Dileu neu atal dros dro hawliau tramwy preifat

24. Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael

Supplemental powers

7. Power to survey and investigate land

Protection of navigation and air traffic and control of noise

8. Tidal works not to be executed without approval of the Secretary of State

9. Provision against danger to navigation

10. Abatement of works abandoned or decayed

11. Survey of tidal works

12. Permanent lights, navigational safety aids and colour

13. Lights on tidal works during construction

14. Active safety management system

15. Construction and operational noise

16. Execution by Secretary of State of works in default

17. Offences

PART III

ACQUISITION AND POSSESSION OF LAND

Powers of acquisition

18. Power to acquire land

19. Application of Part I of the Compulsory Purchase Act 1965

20. Power to acquire new rights

Temporary possession of land

21. Temporary use of land for construction of works

Compensation

22. Disregard of certain interests and improvements

23. Extinction or suspension of private rights of way

24. Time limit for exercise of powers of acquisition

RHAN IV

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

25. Y pŵer i weithredu a defnyddio gweithfeydd
26. Datgymhwyso adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989
27. Rhwystro a chamddefnyddio gweithfeydd awdurdodedig
28. Parthau diogelwch ar gyfer mordwyo, treillio ac angori
29. Tir penodol sydd i'w drin fel tir gweithredol
30. Ymgwymerwyr statudol, etc.
31. Er mwyn diogelu Asiantaeth yr Amgylchedd
32. Er mwyn diogelu Network Rail
33. Iawndal i bysgotwyr
34. Ardystio planiau, etc.
35. Cyflwyno hysbysiadau
36. Dim adennill dwbl
37. Trosglwyddo pwerau
38. Hawliau'r Goron
39. Cymrodeddu

YR ATODLENNI

- | | |
|-----------|---|
| Atodlen 1 | Y gweithfeydd a restrwyd |
| Atodlen 2 | Y strydoedd sydd i'w cau dros dro |
| Atodlen 3 | Addasu deddfiadau o ran iawndal a phrynu gorfodol i greu hawliau newydd |
| Atodlen 4 | Y darpariaethau o ran ymgwymerwyr statudol, etc. |
| Atodlen 5 | Er mwyn diogelu Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Atodlen 6 | Er mwyn diogelu Network Rail |

PART IV

MISCELLANEOUS AND GENERAL

25. Power to operate and use works
26. Dis-application of sections 36 and 37 of the Electricity Act 1989
27. Obstruction and misuse of authorised works
28. Safety zones for navigation, trawling and anchoring
29. Certain land to be treated as operational land
30. Statutory undertakers, etc.
31. For protection of Environment Agency
32. For protection of Network Rail
33. Compensation for fishermen
34. Certification of plans, etc.
35. Service of notices
36. No double recovery
37. Transfer of powers
38. Crown rights
39. Arbitration

SCHEDULES

- | | |
|------------|--|
| Schedule 1 | The scheduled works |
| Schedule 2 | Streets to be temporarily stopped up |
| Schedule 3 | Modification of compensation and compulsory purchase enactments for creation of new rights |
| Schedule 4 | Provisions relating to statutory undertakers, etc. |
| Schedule 5 | For protection of Environment Agency |
| Schedule 6 | For protection of Network Rail |

GAN FOD cais wedi'i wneud i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Cyflwyno Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2000(a) a wnaed o dan adrannau 6, 6A, 7 a 10 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(b) ("Deddf 1992"), am Orchymyn o dan adran 3 o Ddeddf 1992;

A chan fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi peri bod ymchwiliad yn cael ei gynnal at ddibenion y cais yn unol ag adran 11 o Ddeddf 1992;

A chan fod y Cynulliad Cenedlaethol, ac yntau wedi ystyried adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad, wedi penderfynu gwneud Gorchymyn i roi effaith i'r cynigion a geir yn y cais gydag addasiadau nad ydynt yn gwneud unrhyw newid sylweddol i'r cynigion yn ei farn ef;

A chan fod hysbysiad o benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi yn y London Gazette ar 2 Tachwedd 2004;

YN AWR FELLY, mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 3 a 5 o Ddeddf 1992, a pharagraffau 1 i 5, 7, 8, 10, 11 a 15 i 17 o Atodlen 1 iddi, ac sydd bellach yn arferadwy gan y Cynulliad Cenedlaethol(c), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

RHAN I RHAGARWEINIOL

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004 a daw i rym ar 19 Tachwedd 2004.

Dehongli

2.-(1)Yn y Gorchymyn hwn-

mae i "awdurdod stryd", mewn perthynas â stryd, yr un ystyr ag sydd i "street authority" yn Rhan III o'r Ddeddf Gwaith Stryd;

(a) O.S. 2000/2190.

(b) 1992 p.42.

(c) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2001 (O.S. 2000/253) (Cy.5).

WHEREAS an application has been made to the National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2000(a) made under sections 6, 6A, 7 and 10 of the Transport and Works Act 1992(b) ("the 1992 Act"), for an Order under section 3 of the 1992 Act;

AND whereas the National Assembly has caused an inquiry to be held for the purposes of the application pursuant to section 11 of the 1992 Act;

AND whereas the National Assembly, having considered the report of the person who held the inquiry, has determined to make an Order giving effect to the proposals comprised in the application with modifications which in its opinion do not make any substantial change to the proposals;

AND whereas notice of the National Assembly's determination was published in the London Gazette on 2 November 2004;

NOW THEREFORE, the National Assembly, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 3 and 5 of, and paragraphs 1 to 5, 7, 8, 10, 11 and 15 to 17 of Schedule 1 to, the 1992 Act, and which are now exercisable by the National Assembly(c), and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Order:

PART I PRELIMINARY

Citation and commencement

1. This Order may be cited as the Scarweather Sands Offshore Wind Farm Order 2004 and comes into force on 19 November 2004.

Interpretation

2.-(1) In this Order -

"the 1961 Act" ("*Deddf 1961*") means the Land Compensation Act 1961(d);

(a) S.I. 2000/2190.

(b) 1992 c.42.

(c) *See* The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2000 (S.I. 2000/253) (W.5).

(d) 1961 c.33.

ystyr "y ceblau cludo i'r môr" ("*the marine feeder cables*") yw'r ceblau a geir yng Ngwaith Rhif 2;

ystyr "y ceblau rhyngdyrbinau" ("*the inter-turbine cables*") yw'r ceblau a ddisgrifir ym mharagraff 1(b) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

mae i "cerbyttfordd", "llwybr troed", "priffordd" ac "awdurdod priffyrdd" yr un ystyr ag sydd i "carriageway", "footpath", "highway" a "highway authority" yn Neddf Priffyrdd 1980(a);

ystyr "cwch" ("*vessel*") yw llong, cwch, rafft, neu fad o ba ddisgrifiad bynnag, ac mae'n cynnwys unrhyw fad nad yw'n dadleoli, awyrennau môr ac unrhyw beth arall a adeiladir neu a addasir er mwyn arnofio ar ddŵr neu i'w roi dan ddŵr (boed hynny'n barhaol neu dros dro), a hofranfad neu gerbyd amffibiaidd arall;

ystyr "cyfeirbwynt" ("*reference point*") yw cyfeirbwynt Grid Cenedlaethol yr Arolwg Ordnans;

ystyr "y cyfeirlyfr" ("*the book of reference*") yw'r cyfeirlyfr a ardystiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel y cyfeirlyfr at ddibenion y Gorchymyn hwn;

mae "cynnal a chadw" ("*maintain*", "*maintenance*") yn cynnwys archwilio, cynnal a chadw, trwsio, addasu, newid, symud, ailadeiladu ac amnewid;

ystyr "Deddf 1961" ("*the 1961 Act*") yw Deddf Iawndal Tir 1961(b);

ystyr "Deddf 1965" ("*the 1965 Act*") yw Deddf Prynu Gorfodol 1965(c);

ystyr "y Ddeddf Gwaith Stryd" ("*the Street Works Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991(ch);

mae "deddfiad" ("*enactment*") yn cynnwys unrhyw orchymyn, is-ddeddf, rheol, rheoliad, cynllun neu offeryn arall sydd ag effaith yn rhinwedd deddfiad;

ystyr "gwaith llanw'r môr" ("*tidal work*") yw rhywfaint o unrhyw waith awdurdodedig sydd ar, o dan neu dros ddyfroedd y llanw;

ystyr "y gweithfeydd a restrwyd" ("*the scheduled works*") yw'r gweithfeydd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn neu unrhyw ran ohonynt;

ystyr "gweithfeydd awdurdodedig" ("*authorised works*") yw'r gweithfeydd a restrwyd, y gweithfeydd a'r cyfleusterau a ddisgrifir yn erthygl 3(4), a'r mast presennol ac eithrio yn erthyglau 8 i 17;

"the 1965 Act" ("*Deddf 1965*") means the Compulsory Purchase Act 1965(a);

"the Applications Rules" ("*y Rheolau Ceisiadau*") means the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2000(b); and references in this Order to numbered rules are to the rules bearing those numbers in the Applications Rules;

"authorised works" ("*y gweithfeydd awdurdodedig*") means the scheduled works, the works and facilities described in article 3(4) and, except in articles 8 to 17, the existing mast;

"the book of reference" ("*y cyfeirlyfr*") means the book of reference certified by the National Assembly as the book of reference for the purposes of this Order;

"carriageway" ("*cerbyttfordd*"), "footpath" ("*llwybr troed*"), "highway" ("*priffordd*") and "highway authority" ("*awdurdod priffyrdd*") have the same meaning as in the Highways Act 1980(c);

"electric line" ("*llinell drydan*") has the meaning given by section 64(1) of the Electricity Act 1989(d);

"enactment" ("*deddfiad*") includes any order, byelaw, rule, regulation, scheme or other instrument having effect by virtue of an enactment;

"the existing electricity pylon" ("*y peilon trydan presennol*") means the electricity pylon at reference point 278906E, 185778N and includes any apparatus which is ancillary to that pylon;

"the existing mast" ("*y mast presennol*") means the existing anemometry mast on the bed of Swansea Bay adjoining the coast at Port Talbot in the County Borough of Neath Port Talbot, situated at reference point 271709E, 176723N;

"the inter-turbine cables" ("*y ceblau rhyngdyrbinau*") means the cables described in paragraph 1(b) of Schedule 1 to this Order;

"the land plans" ("*planiau'r tir*") means the plans certified by the National Assembly as the land plans for the purposes of this Order; and references to land shown on those plans are references to land so shown in pursuance of rule 12(5);

"the level of high water" ("*lefel y dŵr uchel*") means the level of mean high water springs;

"the limits of deviation" ("*terfynau'r gwyro*"), in relation to a work, means the limits of deviation related to that work which are shown on the works plans;

(a) 1980 p.66.

(b) 1961 p.33.

(c) 1965 p.56.

(ch) 1991 p.22.

(a) 1965 c.56.

(b) S.I. 2000/2190.

(c) 1980 c.66.

(d) 1989 c.29.

ystyr "lefel y dŵr uchel" ("*the level of high water*") yw lefel y llanwau mawr uchel cymedrig;

mae i "llinell drydan" yr un ystyr ag sydd i "*electric line*" yn adran 64(1) o Ddeddf Trydan 1989(a);

ystyr "y mast presennol" ("*the existing mast*") yw'r mast anemometreg presennol sydd ar wely Bae Abertawe ac sy'n cydffinio â'r arfordir wrth Bort Talbot ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, ac a leolir wrth gyfeirbwynt 271709Dn, 176723G;

ystyr "y peilon trydan presennol" ("*the existing electricity pylon*") yw'r peilon trydan wrth gyfeirbwynt 278906Dn, 185778G ac mae'n cynnwys unrhyw gyfarpar sy'n atodol i'r peilon hwnnw;

ystyr "perchennog" ("*owner*"), mewn perthynas â thir, yw person, ac eithrio morgeisai nad yw'n meddu ar dir, sydd am y tro â'r hawl i waredu ffi syml y tir (boed hynny mewn meddiant neu rifersiwn) ac y mae'n cynnwys person sy'n dal y tir, neu sydd â'r hawl i gael y rhenti a'r elw o'r tir, pan fo'r tir hwnnw o dan les neu denantiaeth sydd â mwya na 3 blynedd ar ôl i redeg;

ystyr "planiau'r gweithfeydd" ("*the works plans*") yw'r planiau a ardystiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel planiau'r gweithfeydd at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr "planiau'r tir" ("*the land plans*") yw'r planiau a ardystiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel y planiau tir at ddibenion y Gorchymyn hwn; ac mae cyfeiriadau at dir a ddangosir yn y planiau hynny yn gyfeiriadau at dir a ddangosir felly yn unol â rheol 12(5);

ystyr "y Rheolau Ceisiadau" ("*the Applications Rules*") yw Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Cyflwyno Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2000(b); ac mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at reolau â rhif yn gyfeiriadau at y rheolau sy'n dwyn y rhifau hynny yn y Rheolau Ceisiadau;

ystyr "safle'r fferm wynt" ("*the wind farm site*") yw'r ardal a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd o fewn terfynau'r gwyro ar gyfer y ceblau rhyngdyrbinau;

mae "stryd" ("*street*") yn cynnwys rhan o stryd;

ystyr "terfynau'r gwyro" ("*the limits of deviation*"), mewn perthynas â gweithfeydd, yw'r terfynau gwyro ar gyfer y gweithfeydd hynny a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd;

"maintain" ("*cynnal a chadw*") includes inspect, maintain, repair, adjust, alter, remove, reconstruct and replace; and "maintenance" shall be construed accordingly;

"the marine feeder cables" ("*y ceblau chudo i'r môr*") means the cables comprised in Work No. 2;

"owner" ("*perchennog*"), in relation to land, means a person, other than a mortgagee not in possession, who is for the time being entitled to dispose of the fee simple of land (whether in possession or reversion) and includes a person holding, or entitled to the rents and profits of, the land under a lease or tenancy having an unexpired term exceeding 3 years;

"reference point" ("*cyfeirbwynt*") means the Ordnance Survey National Grid reference point;

"the scheduled works" ("*y gweithfeydd a restrwyd*") means the works specified in Schedule 1 to this Order or any part of them;

"the sections" ("*y trawsluniau*") means the sections certified by the National Assembly as the sections for the purposes of this Order;

"street" ("*stryd*") includes part of a street;

"street authority" ("*awdurdod stryd*"), in relation to a street, has the same meaning as in Part III of the Street Works Act;

"the Street Works Act" ("*y Ddeddf Gwaith Stryd*") means the New Roads and Street Works Act 1991(a);

"tidal work" ("*gwaith llanw'r môr*") means so much of any authorised work as is on, under or over tidal waters;

"the Tribunal" ("*y Tribiwnlys*") means the Lands Tribunal;

"Trinity House" means the Corporation of Trinity House of Deptford Strond;

"the undertaker" ("*yr ymgymwrwr*") means Scarweather Sands Limited or any person to whom the powers conferred by this Order are transferred in an agreement pursuant to article 37;

"vessel" ("*cwch*") means a ship, boat, raft or water craft of any description and includes non-displacement craft, seaplanes and any other thing constructed or adapted for floating on or being submerged in water (whether permanently or temporarily) and a hovercraft or other amphibious vehicle;

(a) 1989 p.29.

(b) O.S. 2000/2190.

(a) 1991 c.22.

ystyr "y trawsluniau" ("*the sections*") yw'r trawsluniau a ardystiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol fel y trawsluniau at ddibenion y Gorchymyn hwn;

ystyr "y Tribiwnlys" ("*the Tribunal*") yw'r Tribiwnlys Tiroedd;

ystyr "Trinity House" yw "the Corporation of the Trinity House of Deptford Strond";

ystyr "tyrbin gwynt" ("*wind turbine*") yw cynhyrhydd tyrbin gwynt fel a ddisgrifir ym mharagraff 1(a) o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn; ac

ystyr "yr ymgymwrwr" ("*the undertaker*") yw Scarweather Sands Limited neu unrhyw berson y trosglwyddwyd y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn iddo drwy gytundeb yn unol ag erthygl 37;

(2) Mae cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at hawliau dros dir yn cynnwys cyfeiriadau at hawliau i wneud, neu i osod a chynnal a chadw, unrhyw beth yn y tir neu arno, neu yn y gofod awyr sydd uwchben ei arwynebedd.

(3) Dehonglir pob cyfeiriad, pellter, hyd a phwyntiau a geir yn unrhyw ddisgrifiad o weithfeydd, pwerau neu diroedd fel pe bai'r geiriau "fwy neu lai" wedi'u mewnosod ar ôl pob cyfeiriad, pellter, hyd a phwynt o'r fath.

(4) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at waith a nodir gan rif y gwaith fel cyfeiriad at y gwaith sy'n dwyn y rhif hwnnw ac a awdurdodwyd gan y Gorchymyn hwn.

(5) Dehonglir cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at bwyntiau a nodir gan lythrennau fel cyfeiriadau at y pwyntiau sy'n dwyn y llythrennau hynny ar blaniau'r gweithfeydd.

"the wind farm site" ("*safle'r fferm wynt*") means an area shown on the works plans within the limits of deviation for the inter-turbine cables;

"wind turbine" ("*tyrbin gwynt*") means a wind turbine generator described in paragraph 1(a) of Schedule 1 to this Order; and

"the works plans" ("*planiau'r gweithfeydd*") means the plans certified by the National Assembly as the works plans for the purposes of this Order.

(2) References in this Order to rights over land include references to rights to do, or to place and maintain, anything in or on land or in the air space over its surface.

(3) All directions, distances, lengths and points stated in any description of works, powers or lands are to be construed as if the words "or thereabouts" were inserted after each such direction, distance, length and point.

(4) Any reference in this Order to a work identified by the number of the work is to be construed as a reference to the work of that number authorised by this Order.

(5) References in this Order to points identified by letters are to be construed as references to the points so lettered on the works plans.

RHAN II GWEITHFEYDD

Prif bwerau

Y pŵer i adeiladu a chynnal a chadw gweithfeydd

3.-(1) Caiff yr ymgymwrwr adeiladu a chynnal a chadw y gweithfeydd a restrwyd.

(2) Caiff yr ymgymwrwr gadw a chynnal y mast presennol.

(3) Yn ddarostyngedig i erthygl 4, rhaid i'r gweithfeydd a restrwyd gael eu hadeiladu a'u cynnal a'u cadw yn y llinellau neu'r safleoedd a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd ac yn unol â'r lefelau a ddangosir ar y trawsluniau.

PART II WORKS

Principal powers

Power to construct and maintain works

3.-(1) The undertaker may construct and maintain the scheduled works.

(2) The undertaker may retain and maintain the existing mast.

(3) Subject to article 4, the scheduled works must be constructed and maintained in the lines or situations shown on the works plans and in accordance with the levels shown on the sections.

(4) Caiff yr ymgwymerwr, o fewn terfynau gwyrō'r gweithfeydd a restrwyd, wneud, darparu a chynnal a chadw y cyfryw rai o'r gweithfeydd a'r adnoddau a ganlyn a all fod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion adeiladu neu gynnal a chadw'r gweithfeydd a restrwyd, mewn cysylltiad â hwy neu o ganlyniad iddynt, sef-

- (a) glanfeydd neu angorfeydd neu unrhyw ddull arall o gadw cychod, boed yn rhai parhaol neu'n rhai dros dro, wrth adeiladu neu wrth gynnal a chadw'r gweithfeydd a restrwyd;
- (b) bwiau, goleuadau, clustogau ac unrhyw rybudd mordwyol arall neu weithfeydd i osgoi gwrthdrawiadau â llongau;
- (c) gweithfeydd i newid safleoedd cyfarpar, gan gynnwys prif bibellau, carthffosydd, draeniau a cheblau;
- (ch) gweithfeydd i newid llwybr neu ymyrryd fel arall ag afonydd, nentydd neu gyrsiau dŵr anfordwyadwy;
- (d) tirweddau a gweithfeydd eraill i leddfu unrhyw effeithiau niweidiol gwaith adeiladu, cynnal a chadw neu weithredu'r gweithfeydd awdurdodedig;
- (dd) gweithfeydd er budd neu er mwyn diogelu tir yr effeithir arno gan y gweithfeydd awdurdodedig;
- (e) un neu fwy o fastiau anemometreg ychwanegol;
- (f) y gweithfeydd, cyfarpar a'r peiriannau eraill hynny o ba natur bynnag a allant fod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

Y pŵer i wro

4.-(1) Wrth adeiladu neu gynnal a chadw unrhyw weithfeydd a restrwyd, caiff yr ymgwymerwr wro-

- (a) yn llorweddol o'r llinellau neu'r safleoedd a ddangosir ar blaniau'r gweithfeydd o fewn terfynau'r gwyrō ac, yn benodol, caiff y ceblau rhyngdyrbinau gysylltu, o fewn terfynau'r gwyrō, ag unrhyw un o'r tyrbinau gwynt; a
- (b) yn fertigol o'r lefelau a ddangosir ar y trawsluniau mewn perthynas â-
 - (i) uchder tyrrau'r tyrbinau gwynt i unrhyw raddau heb fod yn fwy na 24 metr tuag i lawr (yn ddarostyngedig i baragraff (2));
 - (ii) dyfnder seiliau'r tyrbinau gwynt yng ngwely'r môr i unrhyw raddau tuag i fyny ac i unrhyw raddau heb fod yn fwy nag 20 metr tuag i lawr;
 - (iii) y ceblau a geir yn Ngwaith Rhif 1 a 2 i unrhyw raddau heb fod yn fwy nag 1 metr tuag i fyny nac i lawr (yn ddarostyngedig i baragraff (3));

(4) The undertaker may, within the limits of deviation for the scheduled works, carry out, provide and maintain such of the following works and facilities as may be necessary or expedient for the purposes of, in connection with, or in consequence of, the construction or maintenance of the scheduled works, namely-

- (a) temporary or permanent landing places, jetties, or moorings or other means of accommodating vessels in the construction or maintenance of the scheduled works;
- (b) buoys, beacons, fenders and other navigational warning or ship impact protection works;
- (c) works to alter the position of apparatus, including mains, sewers, drains and cables;
- (d) works to alter the course of, or otherwise interfere with, non-navigable rivers, streams or watercourses;
- (e) landscaping and other works to mitigate any adverse affects of the construction, maintenance or operation of the authorised works;
- (f) works for the benefit or protection of land affected by the authorised works;
- (g) one or more additional anemometry masts;
- (h) such other works and apparatus, plant and machinery of whatever nature as may be necessary or expedient.

Power to deviate

4.-(1) In constructing or maintaining any scheduled work, the undertaker may deviate-

- (a) laterally from the lines or situations shown on the works plans within the limits of deviation and, in particular, the inter-turbine cables may connect within the limits of deviation with any of the wind turbines; and
- (b) vertically from the levels shown on the sections in respect of-
 - (i) the height of the towers of the wind turbines to any extent not exceeding 24 metres downwards (subject to paragraph (2));
 - (ii) the depth of the foundations of the wind turbines in the sea bed to any extent upwards and to any extent not exceeding 20 metres downwards;
 - (iii) the cables comprised in Works Nos. 1 and 2 to any extent not exceeding 1 metre upwards or downwards (subject to paragraph (3));

- (iv) Gwaith Rhif 2A, i unrhyw raddau heb fod yn fwy nag 1 metr tuag i fyny nac i lawr;
- (v) Gwaith Rhif 3 i unrhyw raddau heb fod yn fwy na 2 metr tuag i fyny nac i lawr;
- (vi) unrhyw linell drydan uwchben a geir yng Ngwaith Rhif 4 i unrhyw raddau heb fod yn fwy na 10 metr tuag i fyny neu 3 metr tuag i lawr;
- (vii) unrhyw linell drydan danddaearol a geir yng Ngwaith Rhif 4 i unrhyw raddau heb fod yn fwy na 5 metr tuag i fyny neu 12 metr tuag i lawr; ac
- (viii) Gwaith Rhif 5 i unrhyw raddau heb fod yn fwy nag 1 metr tuag i fyny na thuag i lawr.

(2) Rhaid bod pellter o 25 metr o leiaf rhwng pwynt isaf llafnau'r tyrbinau gwynt sy'n cylchdroi a lefel y dŵr uchel.

(3) Yn ddarostyngedig i amrywiad felly y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cytuno nad yw'n bwysig, rhaid gosod y ceblau a geir yng Ngweithfeydd Rhif 1 a 2 i ddyfnder heb fod yn llai na 1.5 metr yn is na lefel gwely'r môr.

Strydoedd

Y pŵer i wneud gwaith stryd

5.-(1) At ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig, caiff yr ymgymwrwr fynd ar gymaint o unrhyw stryd a bennir yng ngholofnau (1) a'r (2) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ag sydd o fewn terfynau'r gwyro, a chaiff-

- (a) rhoi cyfarpar yn y stryd honno;
- (b) cynnal a chadw cyfarpar yn y stryd honno neu newid safle'r cyfarpar hwnnw;
- (c) gwella wyneb Heol Caer Bont rhwng pwyntiau A ac F a ddangosir ar blân y gweithfeydd at ddibenion darparu mynedfa er mwyn adeiladu a chynnal a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig; ac
- (ch) gwneud unrhyw waith sydd ei angen ar y gweithfeydd awdurdodedig neu sy'n gysylltiedig â hwy, neu sydd ei angen ar unrhyw weithfeydd y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a), (b) ac (c) (yn benodol, gan gynnwys torri neu agor y stryd, neu unrhyw garthffos, draen neu dwnel oddi tani, neu durio neu dyllu o dan y stryd) neu sy'n gysylltiedig â hwy.

(2) Yn yr erthygl hon, mae i "cyfarpar" yr un ystyr ag sydd i "apparatus" yn Rhan III o'r Ddeddf Gwaith Stryd.

- (iv) Work No. 2A, to any extent not exceeding 1 metre upwards or downwards;
- (v) Work No. 3 to any extent not exceeding 2 metres upwards or downwards;
- (vi) any overhead electric line comprised in Work No. 4 to any extent not exceeding 10 metres upwards or 3 metres downwards;
- (vii) any underground electric line comprised in Work No. 4 to any extent not exceeding 5 metres upwards or 12 metres downwards; and
- (viii) Work No. 5 to any extent not exceeding 1 metre upwards or downwards.

(2) There must be a minimum distance of 25 metres between the lowest point of the rotating blades of the wind turbines and the level of high water.

(3) Subject to such variation as is agreed not to be material by the National Assembly, the cables comprised in Works Nos. 1 and 2 must be laid at a depth of not less than 1.5 metres below the level of the seabed.

Streets

Power to execute street works

5.-(1) The undertaker may, for the purposes of the authorised works, enter upon so much of any street specified in columns (1) and (2) of Schedule 2 to this Order as is within the limits of deviation and may -

- (a) place apparatus in that street;
- (b) maintain apparatus in that street or change the position of such apparatus;
- (c) improve the surface of Heol Caer Bont between points A and F shown on the works plan for the purpose of providing an access to construct and maintain the authorised works; and
- (d) execute any works required for, or incidental to, the authorised works or any works referred to in sub-paragraphs (a), (b) and (c) (including, in particular, breaking up or opening the street, or any sewer, drain or tunnel under it, or tunnelling or boring under the street).

(2) In this article, "apparatus" has the same meaning as in Part III of the Street Works Act.

Cau strydoedd dros dro

6.-(1) Yn ystod ac at ddibenion gweithredu'r gweithfeydd awdurdodedig, caiff yr ymgwymerwr gau dros dro y strydoedd a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau a bennir drwy gyfeirio at y llythrennau yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno, a chaiff am unrhyw gyfnod rhesymol-

- (a) gwyro'r traffig o'r stryd; a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraff (2), gwahardd pob person rhag pasio ar hyd y stryd.

(2) Ar bob adeg, rhaid i'r ymgwymerwr roi mynediad rhesymol i gerddwyr sy'n mynd i neu'n dod o fangreoeedd sy'n ffinio â stryd yr effeithir arni gan arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon, os nad oes mynediad i'r mangreoeedd hynny fel arall.

(3) Rhaid i'r ymgwymerwr beidio ag arfer pwerau'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw stryd a bennir fel a grybwyllir ym mharagraff (1) heb ymgynghori â'r awdurdod stryd yn gyntaf.

(4) Mae darpariaethau'r Ddeddf Gwaith Stryd a grybwyllir ym mharagraff (5) ynghyd ag unrhyw reoliadau a wneir, neu god ymarfer a gyhoeddir neu a gymeradwyir, o dan y darpariaethau hynny yn gymwys (gyda'r addasiadau angenrheidiol) mewn perthynas â chau, addasu neu wyro stryd gan yr ymgwymerwr o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon lle nad oes gwaith stryd yn mynd rhagddo yn y stryd honno fel y byddent yn gymwys pe bai'r cau, yr addasu neu'r gwyro oherwydd gwaith stryd a wneir yn y stryd honno gan yr ymgwymerwr.

(5) Dyma ddarpariaethau'r Ddeddf Gwaith Stryd y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)-

- (a) adran 54 (hysbysiad ymlaen llaw o weithfeydd penodol);
- (b) adran 55 (hysbysiad o ddyddiad dechrau'r gweithfeydd);
- (c) adran 59 (dyletswydd gyffredinol awdurdod stryd i gydlynu gweithfeydd);
- (ch) adran 60 (dyletswydd gyffredinol ymgwymerwyr i gydweithredu);
- (d) adran 69 (gweithfeydd sy'n debygol o effeithio ar gyfarpar arall yn y stryd);
- (dd) adran 76 (atebolrwydd am y gost o reoli'r traffig dros dro);
- (e) adran 77 (atebolrwydd am y gost o ddefnyddio llwybr amgen); ac
- (f) yr holl ddarpariaethau eraill sy'n gymwys at ddibenion y darpariaethau a grybwyllir uchod.

(6) Bydd unrhyw berson sy'n gweld colled oherwydd atal dros dro hawl tramwy breifat o dan yr erthygl hon â'r hawl i gael iawndal a ddyfernir, os cyfyd anghydfod, o dan Ran I o Ddeddf 1961.

Temporary stopping up of streets

6.-(1) The undertaker may, during and for the purposes of the execution of the authorised works, temporarily stop up the streets specified in columns (1) and (2) of Schedule 2 to this Order to the extent specified by reference to the letters in column (3) to that Schedule and may for any reasonable time -

- (a) divert the traffic from the street; and
- (b) subject to paragraph (2), prevent all persons from passing along the street.

(2) The undertaker must provide reasonable access at all times for pedestrians going to or from premises abutting on a street affected by the exercise of the powers conferred by this article if there would otherwise be no such access.

(3) The undertaker must not exercise the powers of this article in relation to any street specified as mentioned in paragraph (1) without first consulting the street authority.

(4) The provisions of the Street Works Act mentioned in paragraph (5) and any regulations made, or code of practice issued or approved, under those provisions apply (with the necessary modifications) in relation to the stopping up, alteration or diversion of a street by the undertaker under the powers conferred by this article where no street works are executed in that street as they would apply if the stopping up, alteration or diversion were occasioned by street works executed in that street by the undertaker.

(5) The provisions of the Street Works Act referred to in paragraph (4) are -

- (a) section 54 (advance notice of certain works);
- (b) section 55 (notice of starting date of works);
- (c) section 59 (general duty of street authority to co-ordinate works);
- (d) section 60 (general duty of undertakers to co-operate);
- (e) section 69 (works likely to affect other apparatus in the street);
- (f) section 76 (liability for cost of temporary traffic regulation);
- (g) section 77 (liability for cost of use of alternative route); and
- (h) all such other provisions as apply for the purposes of the provisions mentioned above.

(6) Any person who suffers loss by the suspension of a private right of way under this article is entitled to compensation to be determined, in case of dispute, under Part I of the 1961 Act.

Y pŵer i arolygu ac archwilio tir

7.-(1) At ddibenion y Gorchymyn hwn, caiff yr ymgymerwr-

- (a) arolygu neu archwilio unrhyw dir sydd o fewn terfynau'r gwyro ac a ddangosir ar blaniau'r tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr;
- (b) gwneud tyllau arbrofol yn y safleoedd hynny ar y tir y gwêl yr ymgymerwr yn dda er mwyn archwilio i natur yr haenen arwynebol a'r isbridd a thynnu samplau o'r pridd, a hynny heb ragfarn i natur gyffredinol is-baragraff (a);
- (c) rhoi ar dir, gadael ar dir a thynnu oddi ar dir y cyfarpar sydd i'w ddefnyddio mewn cysylltiad ag arolygu ac archwilio'r tir a gwneud tyllau arbrofol; ac
- (ch) mynd ar y tir at ddibenion arfer y pwerau a roddir gan is-baragraffau (a) i (c).

(2) Ni chaniateir mynediad i unrhyw dir, na rhoi na gadael cyfarpar ar y tir na'i dynnu oddi yno o dan baragraff (1), oni roddwyd o leiaf 7 niwrnod o hysbysiad i bob perchennog a phob meddiannydd y tir.

(3) O ran unrhyw berson sy'n mynd ar dir ar ran yr ymgymerwr o dan yr erthygl hon-

- (a) cyn neu ar ôl iddo fynd ar y tir, rhaid iddo gynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig o'i awdurdod i wneud hynny, os gofynnir am hynny; a
- (b) caiff ddefnyddio'r cerbydau a'r cyfarpar hynny sy'n angenrheidiol i gynnal yr arolwg neu'r archwiliad, neu i wneud y tyllau arbrofol.

(4) Nid yw'r erthygl hon yn caniatáu gwneud unrhyw dyllau arbrofol mewn cerbyttfordd neu droedffordd heb gydsyniad yr awdurdod stryd, ond ni chaniateir gwrthod rhoi cydsyniad os yw'n afresymol gwneud hynny.

(5) Rhaid i'r ymgymerwr ddigolledu perchenogion a meddianwyr tir am unrhyw ddifrod a achosir drwy arfer y pwerau a geir yn yr erthygl hon; ac, os cyfyd anghydfod, rhaid dyfarnu ar yr iawndal yn unol â Rhan I o Ddeddf 1961.

Diogelu mordwyo a thraffig awyr, a rheoli sŵn

Gweithfeydd llanw'r môr na ddylid eu gweithredu heb gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol

8.-(1) Ni chaniateir adeiladu nac addasu gweithfeydd llanw'r môr, ac eithrio yn unol â chynlluniau a trawsluniau a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a hynny cyn i'r gweithfeydd ddechrau.

Power to survey and investigate land

7.-(1) The undertaker may for the purposes of this Order -

- (a) survey or investigate any land which is both within the limits of deviation and is shown on the land plans and described in the book of reference;
- (b) without prejudice to the generality of sub-paragraph (a), make trial holes in such positions as the undertaker thinks fit on the land to investigate the nature of the surface layer and subsoil and remove soil samples;
- (c) place on, leave on and remove from the land apparatus for use in connection with the survey and investigation of land and making of trial holes; and
- (d) enter on the land for the purpose of exercising the powers conferred by sub-paragraphs (a) to (c).

(2) No land may be entered, or equipment placed or left on or removed from the land under paragraph (1), unless at least 7 days notice has been served on every owner and occupier of the land.

(3) Any person entering land under this article on behalf of the undertaker-

- (a) must, if so required, before or after entering the land produce written evidence of that person's authority to do so; and
- (b) may use such vehicles and equipment as are necessary to carry out the survey or investigation or to make the trial holes.

(4) No trial holes are to be made under this article in a carriageway or footway without the consent of the street authority, but such consent must not be unreasonably withheld.

(5) The undertaker must pay compensation for any damage occasioned, by the exercise of the powers conferred by this article, to the owners and occupiers of the land; such compensation to be determined, in case of dispute, under Part I of the 1961 Act.

Protection of navigation and air traffic and control of noise

Tidal works not to be executed without approval of the Secretary of State

8.-(1) A tidal work must not be constructed or altered, except in accordance with plans and sections approved by the Secretary of State before the work is begun.

(2) Os caiff gweithfeydd llanw'r môr eu hadeiladu neu eu haddasu yn groes i'r erthygl hon neu yn groes i unrhyw amod neu gyfyngiad a osodir gan yr erthygl hon-

- (a) caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r ymgwymerwr yn ysgrifenedig ei fod yn ofynnol iddo dynnu gweithfeydd llanw'r môr neu unrhyw ran ohonynt oddi ar y safle, a hynny ar draul yr ymgwymerwr, gan adfer y safle i'w gyflwr gwreiddiol; a
- (b) os gwêl yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn angenrheidiol iddo wneud hynny ar frys, caiff dynnu gweithfeydd llanw'r môr neu unrhyw ran ohonynt oddi ar y safle, gan adfer y safle i'w gyflwr gwreiddiol;

a chaniateir adennill unrhyw wariant a dynnir gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud hynny oddi wrth yr ymgwymerwr.

Darparu yn erbyn peryglon i fordwyo

9. Os digwydd niwed, difrod neu ddadfeilio i weithfeydd llanw'r môr, neu unrhyw ran ohonynt, rhaid i'r ymgwymerwr hysbysu Trinity House ohono cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a gosod y bwiau hynny, dangos y goleuadau hynny a chymryd y camau eraill hynny er mwyn osgoi perygl i fordwyo y caiff Trinity House eu cyfarwyddo o bryd i'w gilydd.

Diddymu gweithfeydd sydd wedi'u gadael neu sydd wedi dadfeilio

10.-(1) Pan fydd gweithfeydd llanw'r môr wedi'u gadael, neu wedi'u gadael i ddadfeilio, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r ymgwymerwr yn ysgrifenedig ei fod yn ofynnol un ai iddo drwsio ac adfer y gweithfeydd neu unrhyw ran ohonynt, neu iddo dynnu'r gweithfeydd oddi yno ac adfer y safle i'w gyflwr blaenorol, a hynny ar ei draul ei hunan ac i'r graddau ac o fewn y terfynau hynny y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu pennu yn yr hysbysiad.

(2) Os bydd gweithfeydd sydd yn rhannol yn weithfeydd llanw'r môr ac yn rhannol yn weithfeydd ar dir neu dros dir uwchben lefel y dŵr uchel wedi'u gadael, neu wedi'u gadael i ddadfeilio, a bod rhan honno o'r gweithfeydd sydd ar y tir neu dros dir yn y fath gyflwr fel ei bod yn amharu, neu'n achosi pryder rhesymol y gallai amharu ar yr hawl i fordwyo neu ar unrhyw hawliau cyhoeddus eraill o ran y blaendraeth, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gynnwys y rhan honno o'r gweithfeydd, neu unrhyw ran ohoni, mewn unrhyw hysbysiad o dan yr erthygl hon.

(2) If a tidal work is constructed or altered in contravention of this article or any condition or restriction imposed under this article-

- (a) the Secretary of State may by notice in writing require the undertaker at its own expense to remove the tidal work or any part of it and restore the site to its former condition; and
- (b) if it appears to the Secretary of State urgently necessary so to do, the Secretary of State may remove the tidal work or part of it and restore the site to its former condition;

and any expenditure incurred by the Secretary of State in so doing will be recoverable from the undertaker.

Provision against danger to navigation

9. In case of injury to, or destruction or decay of, a tidal work or any part thereof, the undertaker must, as soon as reasonably practicable, notify Trinity House and lay down such buoys, exhibit such lights and take such other steps for preventing danger to navigation as Trinity House may from time to time direct.

Abatement of works abandoned or decayed

